



UNIGRWYDD YN NHREF CAERFYRDDIN

Mae Cyngor Tref Caerfyrddin wedi bod yn cydweithio'n agos gyda sefydliadau eraill yn ystod y chwe mis diwethaf er mwyn ceisio helpu pobl sy'n unig.

Syniad Dirprwy Faer Caerfyrddin, y Cynghorydd Miriam Moules, oedd y prosiect, a hi sydd wedi bod yn arwain yng nghydlynu gwaith rhwng yr amryw asiantaethau i wella llif gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn ardal Gaerfyrddin.

Dywedodd y Cynghorydd Moules: 'Ni ddylem danbrisió'r broblem o unigrwydd yn ein tref, nid rhywbeth sydd yn digwydd mewn dinasoedd mwy yn unig yw hyn. Mae nifer fawr o bobl o bob math o gefndiroedd yn cael trafferth gyda chymorth, ac yn ystod y chwe mis diwethaf rydym wedi dysgu llawer am faint yr anawsterau hynny. Mae nifer ac ansawdd y sefydliadau a'r bobl 'allan yna' sydd yn darparu pob math o gymorth wedi gwneud argraff fawr arnaf, ond mae'n amlwg mai un o'r heriau gwirioneddol yw darganfod beth sydd ar gael i bobl i'w helpu'.

Un o'r prosiectau sydd wedi'i gwblhau hyd yn hyn yw creu cyfeiriadur ar-lein o wasanaethau lleol fel bod pobl yn medru cael mynediad hawdd ar-lein at wybodaeth am y gwasanaethau y gallent fod eu hangen. Mae'r cyfeiriadur, sydd wedi'i gynhyrchu gan ddau fyfyrwr a oedd yn gweithio ar y cyd gyda Chyngor Tref Caerfyrddin fel rhan o'u cwrs academaidd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae hyn yn ganlyniad o'r trafodaethau yn ystod y chwe mis diwethaf i raddau helaeth ac mae ar gael ar wefan Cyngor Tref Caerfyrddin: <http://www.carmarhtowntowncouncil.gov.uk>

Mae cyfarfodydd ar-lein wedi'u cynnal ers mis Medi, a bydd cynlluniau yn cael eu rhoi ar waith i gynnal digwyddiadau ym Mharc Caerfyrddin a Neuadd Ddinesig San Pedr - y ddau yn cael eu rheoli gan Gyngor Tref Caerfyrddin - er mwyn i bobl allu mynychu a siarad â phobl eraill o'r gwahanol asiantaethau sydd yn medru eu helpu.

Ychwanegodd y Cynghorydd Moules: 'Mae'n bwysig nawr ein bod yn symud y gwaith hwn i'r lefel nesaf a pharhau i ddarparu cyfleoedd i bobl gael cymorth a chefnogaeth yn haws. Rydym felly yn bwriadu trefnu nifer o ddigwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal ym Mharc Caerfyrddin a hefyd yn Neuadd Ddinesig San Pedr a fydd, gobeithio, yn rhoi cymorth ymarferol i bobl'.

Ymhlith y partneriaid a oedd yn ynghlwm yn y prosiect roedd NACRO a dywedodd eu cynrhychiolydd, Debbie Smith: "Mae wedi bod yn bleser ac yn addysgiadol i gyd-weithio ac i rwydweithio gydag asiantaethau eraill er budd ein defnyddwyr gwasanaeth".

Mae'r cyfeiriadur llesiant tref Caerfyrddin yn un o sawl datrysiad ymarferol i ddod allan o'r cyfarfodydd diweddaraf hyn, gyda mwy o gyfleoedd cyffrous wedi'u trafod yn ystod y cyfarfod diwethaf".